



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 3344 (Cy.305)

2006 No. 3344 (W.305)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Cynhyrchion
Pysgodfeydd (Taliadau
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
2006**

**The Fishery Products (Official
Controls Charges) (Wales)
Regulations
2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru. Maent yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3297 (Cy.255)).

1. These Regulations apply in relation to Wales. They revoke and replace the Fishery Products (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/3297 (W.255)).

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a arferir i sicrhau bod cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, ac â rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1; ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 bellach mewn Corrigendwm, OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1) yn cael ei wirio, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n ei gwneud yn ofynnol casglu ffoedd sy'n cynnwys costau arfer rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd o dan Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl (OJ L139, 30.4.2004, t.206; ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 bellach mewn Corrigendwm, OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83).

2. These Regulations provide for the execution and enforcement in relation to Wales of Articles 26 and 27 of Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules (OJ No. L165, 30.4.2004, p.1; the revised text of Regulation (EC) No. 882/2004 is now set out in a Corrigendum, OJ No. L191, 28.5.2004, p.1), so far as those provisions require fees to be collected to cover the costs occasioned by official controls performed on fishery products under Annex III to Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption (OJ L139, 30.4.2004, p.206; the revised text of Regulation (EC) No. 854/2004 is now set out in a Corrigendum, OJ No. L226, 25.6.2004, p.83).

3. Mae'r Rheoliadau hyn -

- (a) yn dweud beth yw gwir gostau arfer rheolaethau swyddogol at ddibenion y Rheoliadau (*rheoliad 3*);
- (b) yn darparu'r cyfraddau ar gyfer cyfrifo beth yw cyfwerth mewn punnoedd unrhyw symiau a bennir mewn Ewros yn y Rheoliadau (*rheoliad 4*);

3. These Regulations -

- (a) state what costs constitute the actual costs of exercising official controls for the purposes of the Regulations (*regulation 3*);
- (b) provide the rates to calculate the sterling equivalent of any sums which are specified in Euros in the Regulations (*regulation 4*);

- (c) yn rhagnodi sut y mae hyd "cyfnod cyfrifydda" i'w benderfynu at ddibenion y Rheoliadau (*rheoliad 5*);
- (ch) yn darparu, pan osodir dyletswydd ar fwy nag un person i dalu taliadau o dan y Rheoliadau, y caniateir ei gorfodi ar y cyfryw bersonau ar y cyd neu ar wahân (*rheoliad 6*);
- (d) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau y mae taliadau'n daladwy iddynt o dan y Rheoliadau gyfrifo'r taliadau, eu hailgyfrifo os gwneir camgymeriad a hysbysu'r rhai sy'n atebol am dalu beth yw'r symiau dyledus (*rheoliad 7*);
- (dd) yn darparu ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau sy'n gosod taliadau o dan y Rheoliadau ac yn pennu gofynion ynghylch cynnal y cyfryw apelau a'u penderfynu (*rheoliad 8*);
- (e) yn darparu ar gyfer talu taliadau gan un awdurdod bwyd i un arall pan fo taliadau'n daladwy i fwy nag un awdurdod (diffinnir y term "awdurdod bwyd" yn rheoliad 2) (*rheoliad 9*);
- (f) yn ei gwneud yn ofynnol i swm penodedig gael ei dalu (yn ddarostyngedig i ostyngiad mewn amgylchiadau penodedig) i'r awdurdod bwyd perthnasol gan werthwyr cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol mewn perthynas â rhoi gyntaf ar y farchnad y cyfryw gynhyrchion neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod (diffinnir y termau "awdurdod bwyd perthnasol", "gwerthwr", "cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol", "cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol", "rhoi gyntaf ar y farchnad" a "gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod" yn rheoliad 2) (*rheoliad 10*);
- (ff) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwyr hynny roi i'r awdurdod bwyd perthnasol ddatganiadau niferoedd o ran cyfanswm y trafodion y mae taliadau'n daladwy arnynt ganddynt o dan rheoliad 10, yn pennu'r wybodaeth i'w chynnwys yn y cyfryw ddatganiadau, yn caniatáu i'r awdurdod bwyd perthnasol ei gwneud yn ofynnol i werthwyr cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol roi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r cyfryw drafodion, yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwyr hynny gadw cofnodion sy'n ddigonol i'w galluogi i roi'r cyfryw wybodaeth ac yn ei gwneud yn dramgwydd diannod i fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath (*rheoliad 11*);
- (c) prescribe how the length of an "account period" for the purposes of the Regulations is to be determined (regulation 5);
- (d) provide that where a duty to pay charges under the Regulations is imposed on more than one person it may be enforced jointly or separately against such persons (regulation 6);
- (e) require authorities to which charges are payable under the Regulations to calculate the charges, recalculate if an error is made and give notice of amounts due to those liable to pay (regulation 7);
- (f) provide for appeals against decisions of authorities imposing charges under the Regulations and lay down the requirements for the conduct and determination of such appeals (regulation 8);
- (g) provide for the payment of charges by one food authority to another where charges are payable to more than one authority (the term "food authority" is defined in regulation 2) (regulation 9);
- (h) require payment of a specified amount (subject to a reduction in specified circumstances) to the relevant food authority by vendors of relevant fishery products or relevant landed fishery products in relation to the first placing on the market or first sale in a fish market of such products (the terms "relevant food authority", "vendor", "relevant fishery products", "relevant landed fishery products", "first placing on the market" and "first sale in a fish market" are defined in regulation 2) (regulation 10);
- (i) require those vendors to supply the relevant food authority with returns in respect of the aggregate of transactions for which charges are payable by them under regulation 10, specify the information to be contained in such returns, permit the relevant food authority to require vendors of relevant landed fishery products to supply additional information in relation to such transactions, require those vendors to keep records that are sufficient to enable them to supply such information and make it a summary offence fail to comply with any such requirement (regulation 11);

(g) yn ei gwneud yn ofynnol i swm penodedig gael ei dalu (yn ddarostyngedig i ostyngiad mewn amgylchiadau penodedig) i'r awdurdod bwyd perthnasol gan berchenogion neu weithredwyr sefydliadau prosesu mewn perthynas â chynhyrchion pysgodfeydd sy'n dod i'r sefydliad dan sylw (diffinnir y term "sefydliad prosesu" yn rheoliad 2) (*rheoliad 12*); ac

(ng) yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion a gweithredwyr sefydliadau prosesu roi i'r awdurdod bwyd perthnasol ddatganiadau niferoedd o ran cynhyrchion pysgodfeydd y mae taliadau'n daladwy arnynt o dan reoliad 12, yn pennu'r wybodaeth i'w chynnwys yn y cyfryw ddatganiadau, yn caniatáu i'r awdurdod bwyd perthnasol ei gwneud yn ofynnol i'r perchenogion a'r gweithredwyr hynny roi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chynhyrchion o'r fath, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw cofnodion sy'n ddigonol i'w galluogi i roi gwybodaeth o'r fath ac yn ei gwneud yn dramgwydd diannod i fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath (*rheoliad 13*).

4. Nid oes asesiad o effaith y rheoliadau wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n effeithio ar gostau busnes.

(j) require payment of a specified amount (subject to a reduction in specified circumstances) to the relevant food authority by proprietors or operators of processing establishments in relation to fishery products entering the establishment concerned (the term "processing establishment" is defined in regulation 2) (regulation 12); and

(k) require proprietors and operators of processing establishments to supply the relevant food authority with returns in respect of fishery products for which charges are payable under regulation 12, specify the information to be contained in such returns, permit the relevant food authority to require those proprietors or operators to supply additional information in relation to such products, require them to keep records that are sufficient to enable them to supply such information and make it a summary offence to fail to comply with any such requirement (regulation 13).

4. No regulatory impact assessment has been produced for this instrument as it has no impact on the costs of business.

2006 Rhif 3344 (Cy.305)**2006 No. 3344 (W.305)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES**

**Rheoliadau Cynhyrchion
Pysgodfeydd (Taliadau
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
2006**

**The Fishery Products (Official
Controls Charges) (Wales)
Regulations
2006**

Wedi'u gwneud 13 Rhagfyr 2006
Yn dod i rym 1 Ionawr 2007

Made 13 December 2006
Coming into force 1 January 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(1).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(2) at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd.

The National Assembly for Wales has been designated(2) for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3) fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4) cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau canlynol yn cael eu llunio.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3) as last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council amending Regulation (EC) No. 178/2002 laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(4) there has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations.

(1) 1972 p.68.

(2) O.S 2005/1971.

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(4) OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4.

(1) 1972 c.68.

(2) S.I. 2005/1971.

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(4) OJ No. L245, 29.9.2003, p.4.

RHAN I
RHAGARWEINIAD

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ionawr 2007.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "a fewnforir" ("*imported*") yw y deuir ag ef i Gymru o le arall heblaw rhan arall o Ynsoedd Prydain;

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr sydd i "*food authority*" yn rhinwedd adran 5(1A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1);

ystyr "awdurdod bwyd perthnasol" ("*relevant food authority*") yw'r awdurdod bwyd y mae amgylchiadau'n codi yn ei ardal sy'n arwain at rwymedigaeth o dan y Rheoliadau hyn i dalu tâl i'r awdurdod hwnnw;

mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 1642/2003" ("*Regulation 1642/2003*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*"), "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*") a "Rheoliad 776/2006" ("*Regulation 776/2006*") yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn yr Atodlen;

mae i "cynhyrchion pysgodfeydd" yr ystyr a roddir i "*fishery products*" ym mhwynt 3.1 o Atodiad I i Rheoliad 853/2004;

ystyr "cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol" ("*relevant fishery products*") yw cynhyrchion pysgodfeydd a fewnforir -

- (a) ac a ddaliwyd yn eu hamgylchedd naturiol;
- (b) ac a fewnforir gan lestr pysgota sy'n cyhwanu baner trydedd wlad;
- (c) ac nad ydynt wedi bod ar dir cyn cael eu mewnforio;

(1) 1990 p.16; diwygiwyd adran 5 gan baragraffau 8 a 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 c. 28).

PART I
PRELIMINARY

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Fishery Products (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2006, they apply in relation to Wales and come into force on 1 January 2007.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*"), "Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*"), "Regulation 1642/2003" ("*Rheoliad 1642/2003*"), "Regulation 852/2004" ("*Rheoliad 852/2004*"), "Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*"), "Regulation 854/2004" ("*Rheoliad 854/2004*"), "Regulation 882/2004" ("*Rheoliad 882/2004*"), "Regulation 1688/2005" ("*Rheoliad 1688/2005*"), "Regulation 2073/2005" ("*Rheoliad 2073/2005*"), "Regulation 2074/2005" ("*Rheoliad 2074/2005*"), "Regulation 2075/2005" ("*Rheoliad 2075/2005*"), "Regulation 2076/2005" ("*Rheoliad 2076/2005*") and "Regulation 776/2006" ("*Rheoliad 776/2006*") have the meanings respectively given to them in the Schedule;

"EEA State" ("*Gwladwriaeth AEE*") means a member State, Norway, Iceland or Liechtenstein;

"establishment" ("*sefydliad*") has the meaning given to it in paragraph 1(c) of Article 2 of Regulation 852/2004;

"first placing on the market" ("*rhoi gyntaf ar y farchnad*") has the meaning that it bears in Regulation 882/2004;

"first sale in a fish market" ("*gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod*") is to be construed in accordance with the phrase "first sale in a fish market" in Regulation 882/2004;

"fishery products" ("*cynhyrchion pysgodfeydd*") has the meaning given to it in point 3.1 of Annex I to Regulation 853/2004;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the meaning that it bears by virtue of section 5(1A) of the Food Safety Act 1990(1);

"imported" ("*a fewnforir*") means introduced into Wales other than from another part of the British Islands;

(1) 1990 c.16; section 5 was amended by paragraphs 8 and 9 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c. 28).

(d) ac a fwriedir i'w rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl;

ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol a mewnforyn trydydd gwledydd;

ystyr "cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol" ("*relevant landed fishery products*") yw cynhyrchion pysgodfeydd -

- (a) a gaiff eu glanio yng Nghymru;
- (b) nad ydynt wedi bod ar dir yn flaenorol; ac
- (c) a fwriedir i'w rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl,

ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol a mewnforyn trydydd gwledydd;

mae'r ymadrodd "gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod" i'w ddehongli'n unol â'r ymadrodd "*first sale in a fish market*" yn Rheoliad 882/2004;

ystyr "gwerthwr" ("*vendor*")

- (a) pan gaiff cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol eu rhoi gyntaf ar y farchnad neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod gan asiant ar ran perchennog neu feistr llestr, yw yr asiant hwnnw; a
- (b) pan gaiff cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol neu gynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol eu rhoi gyntaf ar y farchnad neu eu gwerthu gyntaf mewn marchnad bysgod mewn unrhyw amgylchiadau eraill, yw perchennog neu feistr y llestr sy'n eu glanio;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Aelod-wladwriaeth, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein;

ystyr "mewnforyn trydedd wlad" ("*third country import*") yw mewnforyn y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 52(1) o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforyn Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004(1);

mae i "prosesu" yr ystyr a roddir i "*processing*" ym mharagraff 1(m) o Erthygl 2 o Reoliad 852/2004;

ystyr "pysgod eigionol penodedig" ("*specified pelagic fish*") yw -

- (a) penwaig neu ysagadan o'r rhywogaeth *Clupea harengus*;
- (b) penwaig Mair o'r rhywogaeth *Sardinia pilchardus*;
- (c) mecryll o'r rhywogaeth *Scomber scombrus* neu *Scomber japonicus*
- (d) marchfecryll;

"official controls" ("*rheolaethau swyddogol*") is to be construed in accordance with the definition of the term "official control" in paragraph 1 of Article 2 of Regulation 882/2004;

"processing" ("*prosesu*") has the meaning given to it in paragraph 1(m) of Article 2 of Regulation 852/2004;

"processing establishment" ("*sefydliad prosesu*") means an establishment at which processing occurs;

"relevant fishery products" ("*cynhyrchion pysgodfeydd perthnasol*") means imported fishery products which -

- (a) were caught in their natural environment;
- (b) are imported by a fishing vessel flying the flag of a third country;
- (c) have not been on land prior to being imported; and
- (d) are intended for placing on the market for human consumption,

other than relevant landed fishery products and third country imports;

"relevant food authority" ("*awdurdod bwyd perthnasol*") means the food authority in whose area circumstances giving rise to an obligation under these Regulations to pay a charge to that authority arise;

"relevant landed fishery products" ("*cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu glanio ac sy'n berthnasol*") means fishery products which -

- (a) are landed in Wales;
- (b) have not been on land previously; and
- (c) are intended for placing on the market for human consumption,

other than relevant fishery products and third country imports;

"specified pelagic fish" ("*pysgod eigionol penodedig*") means -

- (a) herring of the species *Clupea harengus*;
- (b) sardines of the species *Sardinia pilchardus*;
- (c) mackerel of the species *Scomber scombrus* or *Scomber japonicus*;
- (d) horse mackerel;
- (e) anchovies; and
- (f) picarels of the species *Maena smaris*;

"third country" ("*trydedd wlad*"), except in the expression "third country import", means any country or territory, other than Greenland, which does not comprise the whole or part of an EEA State;

(e) brwyniaid; ac

(f) picarelod o'r rhywogaeth *Maena smaris*;

mae'r term "rheolaethau swyddogol" ("*official controls*") i'w ddehongli'n unol â'r diffiniad o'r term "official control" ym mharagraff 1 o Erthygl 2 o Reoliad 882/2004;

mae i "rhoi gyntaf ar y farchnad" yr ystyr sydd i "*first placing on the market*" yn Rheoliad 882/2004;

mae i "sefydliad" yr ystyr a roddir i "*establishment*" ym mharagraff 1(c) o Erthygl 2 o Reoliad 852/2004;

ystyr "sefydliad prosesu" ("*processing establishment*") yw sefydliad lle y mae prosesu'n mynd rhagddo;

ystyr "trydedd wlad" ("*third country*"), ac eithrio yn yr ymadrodd "mewnforyn trydedd wlad" ("*third country import*") , yw unrhyw wlad neu diriogaeth, heblaw Gr?nland-Kalaallit Nunaat, nad yw'n Wladwriaeth AEE gyfan neu'n rhan o Wladwriaeth AEE.

(2) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cael eu neilltuo -

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1); neu

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(2), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig.

mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn i'w ddehongli, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y maent wedi'u neilltuo felly iddo.

Gwir gostau

3. At ddbenion y Rheoliadau hyn, gwir gostau arfer rheolaethau swyddogol yw cyfanswm costau'r eitemau a restrir yn Atodiad VI i Reoliad 882/2004 ac a dynnir yn uniongyrchol wrth arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004.

Cyferwerthoedd y bunt â'r Ewro

4.-(1) Bernir bod unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at nifer penodedig o Ewros yn gyfeiriad at gyfwerth mewn punnoedd y nifer hwnnw wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

"third country import" ("*mewnforyn trydedd wlad*") means an import in respect of which a charge is payable under regulation 52(1) of the Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) Regulations 2004(1); and

"vendor" ("*gwerthwr*") means -

(a) where a first placing on the market or first sale in a fish market of relevant fishery products or relevant landed fishery products is effected by an agent on behalf of the owner or master of a vessel, that agent; and

(b) where there is a first placing on the market or first sale in a fish market of relevant fishery products or relevant landed fishery products in any other circumstances, the owner or master of the vessel from which they are landed.

(2) Where any functions under the Food Safety Act 1990 are assigned -

(a) by an order under section 2 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(2); or

(b) by an order under section 6 of the Public Health Act 1936(3), to a joint board for a united district.

any reference in these Regulations is to be construed, so far as relating to those functions, as a reference to the authority to whom they are so assigned.

Actual costs

3. For the purposes of these Regulations, the actual costs of exercising official controls are the aggregate of the costs of the items listed in Annex VI to Regulation 882/2004 directly incurred in the exercise of the official controls required under Annex III to Regulation 854/2004.

Sterling equivalents of Euro

4.-(1) Any reference in these Regulations to a specified number of Euros is deemed to be a reference to the sterling equivalent of that number calculated in accordance with paragraph (2).

(1) 1984 p.22. Amnewidwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16).

(2) 1936 p.49. Mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(1) S.I. 2004/1430 (W.144).

(2) 1984 c.22. Section 7(3)(d) was substituted by paragraph 27 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990 (1990 c.16).

(3) 1936 c.49. Section 6 is to be read with paragraph 1 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

(2) Cyfrifir cyfwerth mewn punnoedd nifer penodedig o Ewros drwy luosi'r nifer hwnnw gan y gyfradd gyfnewid Ewro/punt a nodir ym mharagraff (3).

- (3) Y gyfradd gyfnewid Ewro/punt yw -
- (a) ar gyfer 2007, 1 Ewro = £0.67410; a
 - (b) ym mhob blwyddyn ddilynol, y gyfradd a gyhoeddir yng nghyfres C o Gyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd ar ddiwrnod gwaith cyntaf mis Medi y flwyddyn flaenorol neu, os na chyhoeddir cyfradd yn y gyfres ar y diwrnod hwnnw, y gyfradd gyntaf a gyhoeddir yn y gyfres ar ôl hynny.

Cyfnod Cyfrifydda

5.-(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, y cyfnod cyfrifydda yw un mis neu unrhyw gyfnod hwy nad yw'n fwy na deuddeg mis fel a benderfynir gan yr awdurdod bwyd perthnasol.

(2) Rhaid penderfynu'r cyfnod cyfrifydda, gan anelu at ostwng costau'r canlynol i swm rhesymol, o'i gymharu â'r taliadau y disgwyli'r iddynt ddod yn ddyledus, sef -

- (a) gwneud datganiadau niferoedd; a
- (b) casglu taliadau.

Casglu taliadau

6. Pan osodir dyletswydd i dalu tâl o dan y Rheoliadau hyn ar y naill neu'r llall o ddau berson caiff yr awdurdod y mae'r tâl yn daladwy iddo ei gasglu -

- (a) oddi wrth y ddau ohonynt ar y cyd; neu
- (b) oddi wrth y naill neu'r llall ohonynt ar wahân.

Cyfrifo, talu ac ad-dalu taliadau

7.-(1) Pan ddelo'n hysbys i'r awdurdod bwyd perthnasol bod taliad yn ddyledus iddo o dan y Rheoliadau hyn rhaid iddo

- (a) cyfrifo swm y taliad gan roi ystyriaeth i'r wybodaeth sydd ganddo yn ei feddiant; a
- (b) rhoi hysbysiad o'r swm a gyfrifwyd felly i unrhyw berson y caniateir ei gasglu oddi wrtho.

(2) Os yw'r awdurdod bwyd perthnasol yn fodlon bod cyfrifiad sydd wedi'i wneud o dan baragraff (1) yn anghywir, rhaid iddo ailgyfrifo'r taliad ac -

- (a) pan fo'r swm cywir yn fwy na'r swm a gyfrifwyd o dan baragraff (1), rhaid iddo gasglu'r swm uchaf yn unol â'r paragraff hwnnw;
- (b) pan fo'r swm cywir yn llai na'r swm a gyfrifwyd o dan y paragraff hwnnw a phan na fo'r swm wedi'i gasglu, ni chaiff gasglu ond y swm lleiaf yn unol â'r paragraff hwnnw; ac

(2) The sterling equivalent of a specified number of Euros is calculated by multiplying that number by the Euro/sterling conversion rate specified in paragraph (3).

(3) The Euro/Sterling conversion rate is be -

- (a) for 2007, 1 Euro = £0.67410; and
- (b) in each subsequent year, the rate published in the C Series of the Official Journal of the European Communities on the first working day of the September of the preceding year or, if no rate is published in it on that day, the first rate published in it thereafter.

Account period

5.-(1) For the purposes of these Regulations, the account period is one month or such longer period not exceeding twelve months as is determined by the relevant food authority.

(2) The account period must be determined with a view to reducing to a reasonable amount, in comparison with the charges which are expected to fall due, the costs of -

- (a) making returns; and
- (b) collecting charges.

Recovery of charges

6. Where a duty to pay a charge under these Regulations is imposed on either of two persons the authority to which the charge is payable may recover it -

- (a) jointly from both of them; or
- (b) separately from either of them.

Calculation, payment and repayment of charges

7.-(1) Where the relevant food authority becomes aware that a charge is due to it under these Regulations it must

- (a) calculate the amount of the charge having regard to the information in its possession; and
- (b) give notice of the amount so calculated to any person from whom it may be collected.

(2) If the relevant food authority is satisfied that a calculation made under paragraph (1) is incorrect, it must recalculate the charge and -

- (a) where the correct amount is more than the amount calculated under paragraph (1), it must recover the higher amount in accordance with that paragraph;
- (b) where the correct amount is less than the amount calculated under that paragraph and that amount has not been recovered, it must recover the lesser amount in accordance with that paragraph; and

- (c) pan na fo swm yn daladwy neu pan fo'r tâl taladwy yn llai na'r swm a gyfrifwyd o dan y paragraff hwnnw, a'r tâl hwnnw wedi'i gasglu, rhaid iddo ad-dalu'r gwahaniaeth.

Apelau

8.-(1) Caiff person apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod bwyd perthnasol sy'n gosod tâl o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Gwrandewir yr apêl gan lys ynadon ac mae adran 37(3), (5) a (6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys o ran y cyfryw apêl fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag apêl o dan adran 37(1)(c) o'r Ddeddf honno.

- (3) Ar unrhyw apêl o'r fath caiff y llys -
 - (a) cadarnhau penderfyniad yr awdurdod bwyd perthnasol;
 - (b) penderfynu unrhyw dâl sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn; neu
 - (c) penderfynu nad oes tâl yn daladwy.

(4) Wrth ddisgwyl canlyniad yr apêl bydd swm gwreiddiol y tâl yn parhau'n daladwy, ond os bydd angen ailgyfrifo swm y tâl ar ôl penderfyniad y llys, bydd swm newydd y tâl yn effeithiol o'r dyddiad y gwnaed y tâl gwreiddiol a bydd y swm sy'n hafal i'r swm newydd hwnnw yn daladwy i'r awdurdod bwyd perthnasol.

(5) Os bydd y llys yn penderfynu bod tâl sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn yn llai na'r tâl sydd wedi'i dalu, rhaid i'r awdurdod bwyd perthnasol dalu'r gordal yn ôl i'r apelydd llwyddiannus.

Taliadau sy'n daladwy i fwy nag un awdurdod bwyd

9. Mewn unrhyw achos o ohirio arfer rheolaethau swyddogol a phan nad yr awdurdod bwyd perthnasol y mae'n ofynnol talu tâl iddo o dan y Rheoliadau hyn ("awdurdod B") yw'r awdurdod bwyd sy'n gyfrifol am arfer rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 ("awdurdod A"), rhaid i awdurdod B anfon at awdurdod A swm hafal i unrhyw swm a ddaeth i law awdurdod B ac y gellir ei gyfeirio at reolaethau swyddogol a arferir gan awdurdod A.

- (c) where no charge is payable or the charge payable is less than the amount calculated under that paragraph, and that amount has been recovered, it must repay the difference.

Appeals

8.-(1) A person may appeal against any decision of the relevant food authority imposing a charge under these Regulations.

(2) The appeal will be heard by a magistrates' court and section 37(3), (5) and (6) of the Food Safety Act 1990 applies in relation to such an appeal as it applies in relation to an appeal under section 37(1)(c) of that Act.

- (3) On any such appeal, the court may -
 - (a) confirm the decision of the relevant food authority;
 - (b) determine any charge which is payable under these Regulations; or
 - (c) determine that no charge is payable.

(4) Pending the outcome of the appeal the original amount of the charge will remain payable, but if after the court's decision the amount of the charge needs to be recalculated, the new amount of the charge will have effect from the date on which the original charge was made and the sum equal to that new amount will be payable to the relevant food authority.

(5) If the court determines that a charge payable under these Regulations is less than the charge that has been paid, the relevant food authority must reimburse the overpayment to the successful appellant.

Charges payable to more than one food authority

9. In any case where the exercise of official controls is deferred and the food authority responsible for the exercise of the official controls required under Annex III to Regulation 854/2004 ("authority A") is not the relevant food authority to which a charge is required to be paid under these Regulations ("authority B"), authority B must remit to authority A a sum equal to any amount received by authority B which is referable to official controls exercised by authority A.

RHAN II

TALIADAU RHEOLAETHAU SWYDDOGOL AC EITHRIO TALIADAU AM FEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD

